

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 11eg 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (Cadeirydd), Gwynedd Jones, Rhys Richards, Euros Puw, Geraint Davies, Huw Charles, Arwel Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Gwynfryn Williams a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Huw Charles ar ei ddyweddiad yn ddiweddar.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ethol Is-gadeirydd.

Cytunodd Euros Puw i fod yn is-gadeirydd (fel y trafodwyd yn y Cyfarfod Blynnyddol).

b) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Tirlithriad ger Ffridd Isa, Llidiardau – cafwyd cadarnhad fod y tirlithriad wedi cael ei glirio.

ii) Ffordd yn rhoi rhwng Cynythog Bach a Cloddau, Llidiardau – cafwyd cadarnhad fod y ffordd wedi cael ei ychwanegu i'w rhaglen waith clytio ffordd.

iii) Culfet ger Tyddyn Tegid, Rhyduchaf - ymddiheurwyd am yr oedi, roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi atgoffa'r gweithlu i gwblhau'r gwaith.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Triathalon Cymru.

i) Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer penwythnos y triathalon. Cynigwyd efallai y byddai CFFI Meirionnydd gyda diddordeb gwirfoddoli i stiwardio'r digwyddiad fel ffordd o godi arian i'r mudiad.

b) Swyddfa'r Bost.

i) Derbyniwyd llythyr yn egluro fod newidiadau i wasanaeth Swyddfa Bost Rhyduchaf ac yr oeddent yn ystyried y dewisiadau a fyddai yn eu galluogi i adfer y gwasanaeth yn y gymuned leol. Mynegwyd gwerthfawrogiad y gymuned i'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Meirwen Charles ar hyd y blynnyddoedd.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

vi) Materion Ariannol.

a) Ffurflen Archwiliad Blynnyddol.

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr ariannol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Nodwyd fod angen sylw i ddau fan fater. Roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i gael arweiniad ynglŷn â pha wybodaeth 'Datgan Buddiant' roedd disgwyl i'r Cyngor arddangos ar eu gwefan gan fod sylwadau'r archwilydd mewnol yn groes i'r cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru yn 2017. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a

Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilwyr allanol.

vi) Unrhyw Fater Arall.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

a) Ffordd Ceunant, Rhyduchaf - roedd coed helyg yn tyfu rhwng y ffordd a'r gwrych ac nid oedd yn bosib i'r tirlfeddiannwr ffensio. Gofynnwyd a oedd posib i'w clirio a hefyd i agor y ffosydd.

b) Ffordd Rhyduchaf - roedd pant yn y ffordd ar ôl mynedfa Gelli ac roedd cerbydau yn cael eu tynnu i'r ochr.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Medi 10fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00 y.h.**